

Prentisiaeth Uwch mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth

y rhaglen 'acumen'
gweithredol

HYD

18

MIS

Mae'r rhaglen 'acumen' gweithredol wedi'i hanelu at gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, yn amrywio o fusnesau bach a chanolig lleol bach i sefydliadau mawr, cenedlaethol.

Mae'r rhaglen yn defnyddio cynnwys rhaglen gyfarwyddiadol (adnoddau dysgu) i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd, ynghyd â dulliau cymell anghyfarwyddol i sicrhau eich bod yn dysgu ac yn rhoi gwybodaeth a sgiliau newydd ar waith yn effeithiol yn y gweithle.

Ar ddechrau'r rhaglen, byddwch yn datblygu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn datblygu ac arwain tîm sy'n perfformio'n dda. Unwaith y byddwch wedi datblygu'r wybodaeth hon, byddwch yn derbyn cefnogaeth i roi'r sgiliau hyn ar waith i ddatblygu tîm sy'n perfformio'n dda yn eich sefydliad.

Sut rydym ni'n darparu'r Brentisiaeth hon

Caiff y rhaglen hon ei darparu ar sail un i un yn eich gweithle gan eich Hyfforddwr Arweinyddiaeth a Rheolaeth penodedig eich hun.

Byddant yn cwrdd â chi bob mis (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir) i gymhell a hyfforddi i'ch helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a'ch tywys trwy'r rhaglen.

Yna byddant yn asesu eich cymhwysedd trwy arsylwi eich tystiolaeth ohonoch chi'n rhoi'r sgiliau newydd ar waith yn y gweithle a'ch helpu i ddatblygu portffolio o dystiolaeth i brofi eich bod wedi cwrdd â gofynion y Brentisiaeth.

Cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn y Brentisiaeth hon

- Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:
- Prentisiaeth Uwch Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Diploma Lefel 5 ILM mewn Egwyddorion Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol Lefel 2 (os oes angen)



Sesiwn 1

Adolygiad o'ch datblygiad personol a'ch profiad, nodau, amcanion a blaenoriaethau o ran datblygiad yn y gweithle

Ar ddechrau Sesiwn 1, bydd eich Hyfforddwr yn eich tywys drwy ddulliau o werthuso eich dysgu a'ch profiad blaenorol yn y gweithle i ganfod eich cryfderau a'ch gwendidau personol, gan ddefnyddio technegau hunanasesu a chylch dysgu. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth ynglŷn â sut y gall gwahanol fodelau a thechnegau dysgu effeithio ar eich ffordd o ddysgu.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Asesu eich nodau, amcanion a'ch blaenoriaethau o ran datblygiad personol, ar gyfer y tymor hir, canolig a'r tymor byr
- Defnyddio tystiolaeth o wahanol adnoddau a thechnegau i gynllunio eich dysgu a'ch datblygiad
- Datblygu cynllun i osod eich nodau ac adolygu eich cynnydd a'ch cyflawniadau

Sesiwn 2

Meddwl yn feirniadol - asesu eich credoau, eich agweddau a'ch gwerthoedd eich hun

Ar ddechrau Sesiwn 2, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i gynnal archwiliad beirniadol o'ch credoau a'ch gwerthoedd, y gwahaniaethau rhyngddynt, a sut mae'r rhain yn gallu effeithio ar eich agwedd o ran y penderfyniadau yr ydych chi'n eu gwneud yn y gwaith. Yna byddwch yn nodi ac yn dysgu am ystod o ddamcaniaethau rheoli y gellir eu defnyddio fel rhan o'ch rôl wrth reoli eraill.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Reoli pobl â chredoau, agweddau a gwerthoedd gwahanol
- Lliniaru rhagfarn anymwybodol

Sesiwn 3

Rheoli gwelliant

Ar ddechrau Sesiwn 3, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddysgu sut i gynnal asesiad beirniadol o effeithiolrwydd eich sefydliad wrth reoli ansawdd er mwyn bodloni neu ragori ar ofynion cwsmeriaid. Byddwch yn dysgu sut i reoli, sicrhau, ac archwilio ansawdd er mwyn gwella disgwyliadau cwsmeriaid, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau er mwyn eu cynnal. Yna byddwch yn gwerthuso eich gallu eich hunan i reoli ansawdd er mwyn bodloni neu ragori ar ofynion cwsmeriaid, gan ddysgu sut i fonitro boddhad cwsmeriaid gan ddefnyddio meincnodi, cynllunio gwelliannau, amserlennu a logisteg.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Ddatblygu a gweithredu cynllun gwella sydd wedi'i gynllunio i ragori ar ofynion cwsmeriaid
- Nodi a blaenoriaethu meysydd i'w gwella a gosod targedau i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid
- Gweithredu eich cynllun trwy broses strwythuredig sydd wedi'i hystyried yn ofalus, gan sicrhau ei fod yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol

Sesiwn 4

Deall eich rôl reoli i wella perfformiad

Ar ddechrau Sesiwn 4, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i archwilio sut i'ch galluogi i ddeall natur a phwmpas eich sefydliad yn llawn a sut mae eich swyddogaethau gweithredol yn cysylltu â'i gilydd. Yna byddwch yn gwerthuso cyfrifoldebau penodol rheolwyr o fewn eich sefydliad i gyflawni ei nodau. Byddwch yn dysgu pwysigrwydd gosod nodau ac amcanion ac alinio'ch cyfrifoldebau rheoli gan ddefnyddio ystod o dechnegau cynllunio, trefnu a chymhelliant.

Byddwch yn dysgu:

- Sut mae sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol yn effeithio ar berfformiad yn eich gweithle
- Amrywiaeth o ddulliau i oresgyn rhwystrau i gyfathrebu, gan gynnwys sut i ddarparu adborth effeithiol
- Sut i asesu eich sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu eich hun
- Sut i nodi eich meysydd gwella a'u hintegreiddio i gynllun datblygu personol

Sesiwn 5

Deall cysyniadau ariannol a sut i wneud achos ariannol i lywio penderfyniad rheoli

Ar ddechrau Sesiwn 5, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddatblygu dealltwriaeth o'r cysyniadau ariannol a ddefnyddir fel sylfaen ar gyfer penderfyniadau rheoli. Byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi a deall sut mae costau'n cael eu dyrannu. Byddwch yn dysgu am systemau costio a sut i ddyrannu costau gan ddefnyddio gwahanol dechnegau i'w lleihau, megis rheoli cyllidebau a dadansoddi amrywiant.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Ddefnyddio ystod o dechnegau gwerthuso ariannol i lywio eich penderfyniadau
- Gwneud achos ariannol i lywio penderfyniadau rheoli
- Cyflwyno gwybodaeth ariannol i gefnogi'ch argymhellion

Sesiwn 6

Adolygiad parhaus o'ch profiadau, nodau, amcanion a blaenoriaethau datblygu personol a chysylltiedig â gwaith

Ar ddechrau Sesiwn 6, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn Sesiwn 1. Byddwch chi'n dysgu sut i werthuso eich cyfleoedd datblygu ar gyfer y tymor hir, canolig a'r tymor byr, yn unol â'ch amcanion gweithredol. Byddwch yn dysgu sut i gyfiawnhau cwblhau gweithgareddau datblygiad personol a gynlluniwyd i'ch sefydliad. Byddwch yn gallu dangos sut rydych chi wedi ymgymryd â dysgu a datblygu wedi'i gynllunio gan ddefnyddio gwahanol dechnegau fel rheoli amser/tasgau, cydnabod yr hyn sy'n tynnu eich sylw, cymhelliant personol a sgiliau cynllunio.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Werthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau datblygu wrth gyflawni eich nodau, eich amcanion a'ch blaenoriaethau personol
- Gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau datblygu

Sesiwn 7

Defnyddio cymell a mentora i wella perfformiad tîm ac unigolion

Ar ddechrau Sesiwn 7, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddeall y gwahaniaeth rhwng cymell a mentora a sut y gellir ei ddefnyddio i wella perfformiad. Byddwch yn archwilio'r rhwystrau posibl i gymell a mentora yn eich sefydliad ac yn datblygu strategaethau i'w goresgyn. Byddwch yn ennill dealltwriaeth o'r defnydd o wahanol fodelau neu brosesau cymell i strwythuro eich sesiynau, megis GROW ac OSKAR, ac yn dadansoddi sut y gellir gwerthuso buddion cymell neu fentora.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i gynnal archwiliad beirniadol o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad Hyfforddwr neu fentor effeithiol
- Pam mae angen sgiliau cyfathrebu effeithiol ar hyfforddwyr neu fentoriaid
- Sut i ddeall ystod eang o sgiliau cyfathrebu effeithiol fel iaith y corff, cyfathrebu llafar, sgiliau gwrando, a sgiliau ysgrifennu
- Y rhesymau pam mae defnyddio ystod o sgiliau cyfathrebu yn bwysig

Sesiwn 8

Adolygu a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd a'i effaith ar berfformiad yn y gweithle

Ar ddechrau Sesiwn 8, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i adolygu sut mae'r hyn a ddysgwyd a'ch datblygiad wedi cael ei roi ar waith yn eich gweithle er mwyn gwella eich perfformiad chi a pherfformiad eraill. Byddwch yn gallu deall a thystiolaethu sut y defnyddiwyd technegau gwerthuso perfformiad a chyfyngiadau eu defnyddio i ddatblygu eich perfformiad chi neu berfformiad eraill.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i adolygu a diwygio nodau tymor byr, canolig a thymor hir yn seiliedig ar weithgareddau datblygu personol
- Sut i ddangos eu heffaith ar eich gweithle.
- Sut i osod nodau gan ddefnyddio amcanion SMART
- Gwahanol dechnegau i adolygu cynnydd a chyrhaeddiad megis asesiad ffurfiannol, adborth, myfyriol ac adolygiadau cynnydd un i un
- Sut i adolygu a gwella'r rhain dros gyfnod o amser

Sesiwn 9

Arwain arloesi a newid

Ar ddechrau Sesiwn 9, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddeall sut y gall arloesi wella perfformiad busnes, cynnig buddion ariannol a mantais gystadleuol dros sefydliadau eraill. Yna byddwch yn nodi cyfle i arloesi a gwella yn eich sefydliad, yn cyfiawnhau'r gwelliant ac yn tystio sut y bydd y math hwn o newid yn effeithio ar eich sefydliad.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i ddefnyddio ystod o dechnegau i greu opsiynau arloesol i gyflawni'r gwelliant megis datrys problemau a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata ystadegol a gwybodaeth o ffynonellau eraill
- Sut i werthuso opsiynau ar gyfer y gwelliant arfaethedig er mwyn asesu dichonoldeb a hyfywedd
- Sut i greu a gweithredu cynllun rheoli newid ar gyfer gwelliant, a monitro cynnydd yn erbyn targedau a gytunwyd
- Sut i fonitro cynnydd gan ddefnyddio gwahanol dechnegau fel creu siartiau llif neu fapio cynnydd

Sesiwn 10

Rheoli newid strategol

Ar ddechrau Sesiwn 10, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddadansoddi newid ar lefel strategol. Yn wahanol i'r sesiwn flaenorol, a oedd yn edrych ar newidiadau adrannol, bydd y sesiwn hon yn edrych ar newidiadau mwy sylweddol a allai effeithio ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Yna byddwch yn cynllunio, rheoli a gwerthuso eich newid strategol gan ddefnyddio cynllun SMART neu Gantt ynghyd â chynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â buddion ac anghenion yr holl randdeiliaid. Ar ddiwedd eich ymarfer newid, byddwch yn gallu dangos tystiolaeth, trwy ddefnyddio adnoddau a thechnegau gwerthuso megis; enillion ar fuddsoddiad (ROI), dadansoddiad effaith (dull McKinsey 7s) a siartiau Tebygolrwydd, i bennu pa agweddau ar y newid a oedd yn llwyddiannus neu ddim mor llwyddiannus.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i werthuso ystod o fodelau rheoli newid i nodi'r rhai mwyaf addas i'ch sefydliad eich hun
- Sut i werthuso'r berthynas rhwng rheoli newid, parhad busnes a rheoli argyfwng. Y gwahaniaethau rhwng newid busnes, parhad busnes a rheoli argyfwng
- Yr effaith y maent yn ei chael ar y broses rheoli newid
- Pwysigrwydd bod yr holl feysydd hyn yn gweithio mewn cytgord a pham eu bod yn gweithio gyda'i gilydd

Sesiwn 11

Rheoli prosiect a chynllunio gweithredol

Ar ddechrau Sesiwn 11, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddeall cydrannau allweddol cynllun gweithredol a phatrwm llif gwaith o'r dechrau i'r diwedd megis; cyfalaf dynol (staff a sgiliau), gofynion ariannol (cyllideb), asesu risg a hyd oes prosiect gyda strategaeth ar gyfer dirwyn i ben. Byddwch yn deall y berthynas rhwng cynlluniau strategol a gweithredol a sut maen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Gynllunio, rheoli a gwerthuso prosiect (fel arfer i weithredu eich cynllun gweithredol)
- Defnyddio adnoddau a thechnegau megis dogfen cychwyn prosiect i gwmpasu eich amcanion, dadansoddiad risg i ddangos effeithiau posibl a chynllun SMART i fodloni pob agwedd ar eich prosiect
- Briffio eich tîm ar eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Adolygu cynnydd eich prosiect gan ddefnyddio gwahanol dechnegau monitro
- Datblygu adroddiad/dogfen adolygu ôl-weithredol i brofi sut mae gwelliant parhaus yn digwydd o fewn eich prosiect

Sesiwn 12

Sefydlu, dylunio a rheoli prosesau risg busnes

Ar ddechrau Sesiwn 12, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddatblygu dealltwriaeth o fodelau a thechnegau rheoli risg mewn busnes. Byddwch yn deall y broses o nodi, asesu a rheoli risg a allai fygwth eich busnes megis y model rheoli argyfwng tri cham; paratoi cyn argyfwng, ymateb i argyfwng ac adferiad ar ôl argyfwng.

Byddwch yn dysgu sut i:

- Nodi risgiau busnes posibl
- Defnyddio ymarferion modelu i asesu risg
- Rhoi matrices Asesu Risg Busnes a chynllun wrth gefn ar waith i gwmpasu'r holl broffiliau risg

Yna byddwch yn datblygu cynllun rheoli risg i ymateb i'r risgiau a nodwyd ac yn nodi'r holl adnoddau a chostau sydd ar gael (gan ddefnyddio dadansoddiad cost a budd), ynghyd ag adolygiad o'ch cynllun o newidiadau cysylltiedig â risg mewn cynllun diwygiedig sy'n argymhell gwelliannau posibl yn y dyfodol.

Sesiwn 13

Cyfrannu at ddatblygu cynllun strategol

Ar ddechrau Sesiwn 13, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddysgu am yr ystod o wahanol fodelau cynllunio strategol a'u defnyddioldeb yng nghyd-destun natur a diwylliant eich sefydliad. I gefnogi hyn, byddwch hefyd yn ennill dealltwriaeth o wahanol dechnegau dadansoddiol gan gynnwys Pum Agwedd Porter, Dadansoddiad Cadwyn Gwerth a dadansoddiad Rhanddeiliaid i wneud cynllunio strategol yn fwy llwyddiannus. Byddwch yn defnyddio dadansoddiad PESTLE i werthuso pob maes a allai effeithio ar eich cynllun strategol a byddwch yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ffactorau marchnad megis argaeledd sgiliau, argaeledd adnoddau, gweithgaredd cystadleuwyr neu ymyrraeth y llywodraeth wrth gynllunio'r penderfyniadau hyn.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i ddefnyddio adnoddau sganio i ddatblygu eich strategaeth
- Sut i archwilio'r berthynas rhwng bwriad strategol, dewis strategol a llunio strategaeth
- Sut mae cynllun strategol eich sefydliad yn cyd-fynd a'i amcanion strategol, yn unol ag unrhyw gyfyngiadau adnoddau
- Sut i werthuso effaith y cynllun hwn ar y sefydliad yn erbyn gwahanol fathau o feini prawf gwerthuso

Sesiwn 14

Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar ddechrau Sesiwn 14, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i archwilio'r damcaniaethau rheoli a ddatblygwyd a allai eich helpu i ddylanwadu ac ysgogi eraill, a sut y gellir eu defnyddio yn eich sefydliad. Byddwch yn archwilio ystod o ddamcaniaethau cymhelliant gan gynnwys Theori Cyfranogiad McGregor, Theori Angen McClelland a Theori Hyllendid Cymhelliant Herzberg.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut y bydd rhai ymddygiadau ac agweddau yn eich helpu i ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth eich tîm
- Sut i gynnal morâl a sicrhau ymrwymiad eich tîm trwy gyfnodau anodd
- Sut i addasu eich sgiliau cynllunio, gwneud penderfyniadau adnoddau i ymateb i amgylchiadau sy'n newid a gwella sgiliau ac arbenigedd eich tîm gan ddefnyddio ystod o dechnegau dirprwyo
- Sut i rymuso unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau eu hunain trwy ddyrannu gwaith yn effeithiol

Sesiwn 15

Rheoli datblygiad cynnyrch a/neu wasanaethau

Ar ddechrau Sesiwn 15, bydd eich Hyfforddwr yn gweithio gyda chi i ddeall datblygiad cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd neu well. Yna byddwch yn sefydlu ac yn rheoli'r angen am gynnyrch a/neu wasanaeth newydd neu well yn eich sefydliad, gan ddysgu am y meini prawf allweddol ar gyfer anghenion datblygu cynnyrch a/neu wasanaeth newydd ee proffidioldeb, ffit strategol, gofynion y cwsmer, costau datblygu a gwerthuso pam mae angen y rhain.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i gwblhau ymchwil i'r farchnad i werthuso barn cwsmeriaid
- Sut i gwblhau dadansoddiad cystadleuwyr i asesu cryfderau a gwendidau cystadleuwyr presennol a darpar gystadleuwyr
- Nodi camau'r broses ddatblygu, cylch bywyd cynnyrch a'u gofynion
- Sut mae'r model cylch bywyd yn symud ymlaen trwy sawl cam
- Archwilio segmentu'r farchnad i adnabod a phennu pa fath o segmentu fyddai fwyaf proffidiol
- Sut i ddefnyddio ystod o adnoddau dadansodol marchnad megis SWOT, PESTLE a Phum Agwedd Porter i werthuso eu defnyddioldeb wrth ddatblygu cynnyrch a/neu wasanaeth newydd neu well
- Sut i archwilio a gwerthuso graddfa llwyddiant y cynnyrch a/neu'r gwasanaeth newydd

Sesiwn 16

Unedau dewisol

Gan ddibynnu ar eich angen busnes penodol, bydd eich Hyfforddwr wedyn yn gweithio gyda chi i ddewis un o'r opsiynau canlynol:

- Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i wella cynhyrchiant
- Datblygu a rheoli perthnasoedd cydweithredol â sefydliadau eraill
- Hyrwyddo Cydraddoldeb Cyfle, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sesiwn 17

Cwblhau a mireinio gweithgareddau yn y gwaith a Myfrio ac adolygu

Sesiwn 18

Cwblhau a mireinio gweithgareddau yn y gwaith a Myfrio ac adolygu



Cau'r bwlch rhwng perfformiad a photensial

Pam dewis Prentisiaeth ILM?

Yr ILM yw sefydliad datblygu rheolaeth mwyaf y DU.

Mae cymwysterau ILM yn gosod y meincnod ar gyfer arbenigedd arweinyddiaeth a rheolaeth ryngwladol.

I gael copi o amlinelliad y cwrs hwn yn Gymraeg, cysylltwch â ni
marketing@t2group.co.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn:  029 2079 9133

 www.t2group.co.uk

 info@t2group.co.uk

